

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 14eg o Hydref 2014.

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr: OP Huws (Cadair), Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Barry Bracegirdle, Iwan Lloyd Williams, Dyfed Edwards (Cynghorydd Sir) – Penygroes; Eurig Wyn Evans – Nebo; Sharon Wynne Jones, Harry Wyn Owen, D Martin Williams – Talysarn.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Alex Higgins, yr Heddlu, nad fyddai yn gallu bod yn bresennol I'r cyfarfod.

Cadarnhawyd bod y gor-dyfiant yn y Quarry, Llanllyfni wedi ei docio, a'r gordyfiant ar y bont gerdded rhwng Penygroes a Llanllyfni. Byddwn yn cysylltu efo'r Cyngor i ddiolch.

Cynllunio.

Tir ger fferm Coed Madog, Talysarn – codi ty annedd – caniatáu.

5 Rhes Fictoria, Nantlle – dymchwel estyniad presennol a chodi estyniad newydd – caniatáu.

8 Ffordd yr Orsaf, Penygroes – Estyniadau cefn unllawr ynghyd a chreu anecs deulawr – caniatáu.

Hen Siop, Nasareth – dymchwel estyniad deulawr to fflat a chodi estyniad deulawr to brig yn ei le - caniatáu.

Gohebiaeth.

Cyngor Gwynedd

*Ymatebion. Ni dderbyniwyd ymateb gan yr Heddlu i bryderon y Cyngor am yfed wrth Lon Eifion – gofynwyd i'r Clerc ebostio Uwch-Swyddog.

*Her Gwynedd. Derbyniwyd gwybodaeth am yr her ariannol mae Cyngor Gwynedd yn ei wynebu. Rhannwyd y pamffledi am y seminarau sydd yn cael eu cynnal.

*Gorchymyn – llinellau melyn arfaethedig Talysarn. Trafodwyd y cynllun, caniatáu.

*Llunio Strategaeth Lletya Pobl Hyn. Er gwybodaeth. Y Cyngor yn credo ei bod yn hanfodol bwysig bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu cyflogi yng nghartrefi'r henoed.

Arall

*Swyddfa'r Bost Penygroes – ail-leoli i Siop Spar - ymgynghoriad. Roedd y Cyngor yn credu bod y lleoliad newydd yn ardderchog, y fnyddfa yn addas iawn, yn enwedig wedi'r newidiadau arfaethedig i gael ramp ar gyfer yr anabl. Roeddy Cyngor yn ddiolchgar bod busnes wedi cynnig i fuddsoddi yn yr ardal, ac yn falch o weld y post yn aros yn y pentref gydag oriau ymestynnol a lleoliad wedi ei foderneiddio.

*Derbyniwyd gwybodaeth am newid perchnogaeth Fferyllfa Penygroes – roedd y Cyngor yn ddiolchgar am y gwasanaeth a roddwyd gan y cyn-berchennog i'r Dyffryn dros y blynyddoedd.

Materion Pentrefi. Talysarn – Afon fach i lawr o Hafodlas i'r llyn wedi diflannu – byddwn yn holi Cyngor Gwynedd; Angen blwch postio newydd yng nghanol y pentref – byddwn yn ysgrifennu at y Swyddfa Bost; Mae angen bin baw cwn ger Dorothea (ger y gylchfan); Hen Lon (Ffordd Hyfrydle) angen tocio ar dop yr wal; Draeniau dros y bont i Bro Silyn wedi cau efo pridd – cysylltu efo Cyngor Gwynedd. Penygroes cyrbiau a phalmentydd Trem yr Wyddfa angen sylw. Llanllyfni Anegn biniau baw cwn yn y pentref – ar lon yr ysgol a gwaelod Lon Ddwr; Lloches bws ym mhen uchaf y pentref angen ei lanhau; Pryder bod y wal wrth lloches bws arfaethedig Felin Gerrig mewn peryg o ddisgyn i'r lon. Nebo – Hen Lon Bost, coed yn tyfu unwaith eto ac yn creu rhwystr I bobl sydd yn marchogaeth ar y llwybr.

Llwybrau a Mynwentydd. Cyngor Gwynedd wedi cytuno yn eu ymateb fod llwybr 84 Nebo yn llwybr bwysig ac angen ei uwchraddio; Baw cwn ar llwybr 81 Nebo (Bryn Awel) – byddwn yn gofyn i'r warden gwn a swyddog llwybrau fynd yno I archwilio.